



**SYLWCH:** Fe fydd y cyfarfod hwn yn cael ei ddarlledu'n fyw ar ffilmio i'w ddarlledu'n fyw neu ar ôl i'r cyfarfod orffen, a hynny drwy gyfrwng safle rhyngwyd y Cyngor. Hefyd gallai'r lluniau a'r sain a recordir cael eu defnyddio at ddibenion hyfforddi yn y Cyngor.

Ar ddechrau'r cyfarfod, bydd y Cadeirydd yn cadarnhau a fydd y cyfan neu ran o'r cyfarfod yn cael ei ffilmio ai peidio.

Yn gyffredinol ni fydd y rhannau lle mae'r cyhoedd yn eistedd yn cael eu ffilmio. Er hynny, trwy ddod i mewn i'r ystafell gyfarfod a defnyddio'r man lle mae seddi'r cyhoedd, mae'r cyhoedd yn cytuno y gallant gael eu ffilmio ac o bosibl i'r lluniau a'r sain a gaiff eu recordio cael eu defnyddio, fel y nodir uchod. Os bydd gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn â hyn, cysylltwch â'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd.

28 Chwefror 2023

Annwyl Syr/Fadam

Ysgrifennaf i'ch hysbysu y cynhelir Cyfarfod o Cabinet yn Siambr y Cyngor, Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron ac o bell trwy fideo-gynadledda Dydd Mawrth, 7 Mawrth 2023 am 10.00am i drafod y materion canlynol:

- 1. Ymddiheuriadau**
- 2. Materion Personol**
- 3. Datgelu buddiannau personol / buddiannau sy'n rhagfarnu**
- 4. Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod Blaenorol y Cabinet ac unrhyw faterion sy'n codi o'r Cofnodion hynny  
ER PENDERFYNIAD (Tudalennau 3 - 8)**
- 5. Unrhyw ddeisebau a dderbyniwyd**
- 6. Unrhyw benderfyniadau (os oes rhai) a alwyd i mewn gan y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu**
- 7. Unrhyw adborth gan y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu sydd ddim ar yr agenda**
- 8. Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Porth Gofal ynghylch Cynllun Grant Cartrefi Gwag Cenedlaethol  
ER PENDERFYNIAD (Tudalennau 9 - 76)**
- 9. Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Porth Gofal ynghylch Grant Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV)  
ER PENDERFYNIAD (Tudalennau 77 - 136)**

10. **Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu ynghylch Trefniadau Tâl y Crwner Diwygiedig ar gyfer 2022/23 a 2023/24  
ER PENDERFYNIAD (Tudalennau 137 - 142)**
11. **Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu ynghylch Ffioedd Trefnwyr Angladdau Gwasanaeth y Crwner  
ER PENDERFYNIAD (Tudalennau 143 - 154)**
12. **Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Ysgolion a Diwylliant ynghylch Cynrychiolwyr yr Awdurdod Lleol ar Gyrrff Llywodraethol  
ER PENDERFYNIAD (Tudalennau 155 - 156)**
13. **Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Cyllid a Chaffael ynghylch Cynllun Rhyddhad Ardrethi Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-24  
ER PENDERFYNIAD (Tudalennau 157 - 172)**
14. **Nodi Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Cyllid a Chaffael ynghylch Cyllideb Refeniw Reoladwy 2022/23 - Perfformiad Ariannol  
ER GWYBODAETH (Tudalennau 173 - 198)**
15. **Nodi Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Cyllid a Chaffael ynghylch Adroddiad Monitro'r Rhaglen Gyfalaf Chwarter 3  
ER GWYBODAETH (Tudalennau 199 - 208)**
16. **Nodi Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd ynghylch Adroddiad Hanner Blwyddyn ar Sylwadau o Ganmoliaeth, Cwynion a gweithgarwch Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (2022/2023)  
ER GWYBODAETH (Tudalennau 209 - 216)**
17. **Unrhyw fater arall y penderfyna'r Cadeirydd fod arno angen sylw brys gan y Cabinet**

**Atgoffir yr Aelodau y dylent lofnodi'r Gofrestr Bresenoldeb**

**Darperir Gwasanaeth Cyfieithu ar y Pryd yn y cyfarfod hwn ac mae croeso i'r sawl a fydd yn bresennol ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg yn y cyfarfod.**

**Yn gywir**



**Miss Lowri Edwards**

**Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd**

**At: Arweinydd y Cyngor ac Aelodau'r Cabinet  
Weddill Aelodau'r Cyngor er gwybodaeth**